# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL DYDD IAU, 13 MEDI 2018

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: R.Medwyn Hughes, Elin Walker Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Owen a Catrin Wager.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Annwen Daniels, Anwen Davies, Rheinallt Puw ac Angela Russell. Hefyd y Cynghorydd W.Gareth Roberts (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant).

**Swyddogion yn bresennol:** Gareth James (Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:**
Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Ceryl Davies (Uwch Reolwr Anghenion Dwys)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6 isod:**
<u>Gwasanaethau Anabledd Dysgu</u>
Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Ceryl Davies (Uwch Reolwr Anghenion Dwys)

<u>Gwasanaethau Plant</u>
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc)
Aled Gibbard (Uwch Reolwr Gweithredol – Adnoddau Gofal)
Iona Griffith (Rheolwr Gwasanaeth Plant a Theuluoedd)

<u>Gwasanaeth Addysg</u>
Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Einir Thomas (Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad)

**Sylwedydd:** Sharon Eastlake, Arolygiaeth Gofal Cymru

Dymunodd y Cadeirydd yn dda i Glynda O'Brien, cyn Swyddog Cefnogi Aelodau ar ei ymddeoliad diweddar yn dilyn 40 mlynedd o wasanaeth i gyn-Gyngor Dosbarth Meirionnydd a'r Cyngor hwn. Cytunwyd i anfon cerdyn ati, ar ran holl aelodau'r pwyllgor, yn diolch yn benodol iddi am ei gwasanaeth ffyddlon i'r pwyllgor hwn, a'i ragflaenydd, y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau, dros y blynyddoedd.

Dymunwyd yn dda hefyd i Iona Griffith, Rheolwr Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, fyddai'n ymddeol ddiwedd y mis hwn yn dilyn 40 mlynedd o wasanaeth mewn llywodraeth leol.

Croesawyd y Cynghorydd Catrin Wager i'w chyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn, a hefyd Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

## 1 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Elin Walker Jones fuddiant personol yn Eitem 6 – Awtistiaeth – Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Addysg – oherwydd:-

- Ei bod yn gweithio i'r tîm cyfatebol i Derwen yn y canol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Bod ei merch yn gweithio fel Dadansoddwraig Ymddygiad yn Ysgol Pendalar.

Nid oedd o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 2. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r 7 Mehefin, 2018 fel rhai cywir.

## 4. DIWEDDARIAD – GWASANAETHAU ANABLEDD DYSGU

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant yn diweddaru'r aelodau ar gynllun gweithredu arolygiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y Gwasanaeth Anabledd Dysgu.

Ymhelaethodd y Pennaeth a'r Uwch Reolwr ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau. Codwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Gan mai'r Tîm Cefnogaeth Weithredol a PBS yw'r tîm cyntaf o'i fath yng Nghymru, nodwyd y byddai'n fuddiol i'r pwyllgor dderbyn adroddiad, unwaith y bydd y gwaith o gasglu'r data wedi'i gwblhau ym Mawrth 2019, yn amlinellu'r hyn a ddysgwyd o'r model yma, y deilliannau a sut y bwriedir ei ddatblygu i'r dyfodol gyda siroedd eraill.
- Croesawyd cydweithio agos a phositif y gwasanaeth gyda'r Bwrdd Iechyd.
- Nodwyd, o ran y gwendidau, bod angen gwella a miniogi'r berthynas gyda'r gwasanaethau therapi galwedigaethol arbenigol o safbwynt cyfarch anghenion oedolion gydag anableddau dysgu, sy'n fwy cymhleth a heriol. Hefyd, byddai angen edrych ar gael swyddogion gwybodaeth a chyngor yn rhan o'r Tim Ataliol newydd, fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2019.
- Nodwyd bod y gwasanaeth yn cyfarch yr her ariannol drwy gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys cydweithio gyda darparwyr allanol i edrych ar bob cyfle i gyflwyno ceisiadau am grantiau, canfod gorddarpariaeth, adolygu pob achos mae'r gwasanaeth yn ei gefnogi ac edrych ar leoliadau all-sirol.
- Croesawyd gweledigaeth y gwasanaeth a'r gwaith datblygol sy'n digwydd gyda Dr. Sandy Toogood o Brifysgol Bangor.
- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â faint o geisiadau am gymorth a chefnogaeth sy'n cael eu gwrthod a pham, eglurwyd, yn wahanol i'r drefn hanesyddol lle 'roedd pobl yn cael eu gwrthod oherwydd nad oeddent yn ffitio i mewn i gategori penodol, bod yr anghenion yn cael eu diwallu mewn ffyrdd gwahanol erbyn hyn. Nodwyd y gellid edrych yn fwy manwl ar y ffigurau, i weld oes yna ffigurau ynglŷn â phobl sy'n cael eu gwrthod, ond credid, petai yna anghenion, y byddai'r anghenion hynny yn cael eu cyfarch, naill ai gan y Gwasanaeth Anabledd Dysgu, neu'r Gwasanaeth Oedolion. Ychwanegwyd bod trafodaethau ar y gweill ynglŷn â chryfhau'r trefniadau o ran yr oedolion hynny lle mae elfen o risg, ond nad ydynt, o angenrheidrwydd, yn mynd i fod angen cefnogaeth arbenigol. Nodwyd ymhellach, wrth edrych ar y data sydd gan y gwasanaeth, o bosib' y gellid canfod gwybodaeth sy'n ateb y cwestiynau a godwyd gan yr aelod ac y gellid parhau'r drafodaeth gyda hi.
- Diolchwyd i'r aelodau staff hynny sy'n gweithio yn eu hamser eu hunain yn cynorthwyo gyda'r grwpiau a'r cyfleoedd cymdeithasol fin nos, yn bennaf yn y

grwpiau coginio. Fodd bynnag, cwestiynwyd pam bod hynny'n digwydd yn y lle cyntaf a holwyd onid oedd yna rôl i'r trydydd sector fod yn cynorthwyo gyda'r math yma o weithgareddau.

- Nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi edrych ar yr ôl-groniad o asesiadau DoLS, ac wedi rhoi neges glir i'r adran ynglŷn â'r angen i sicrhau ymdrin ag achosion yn amserol. Hefyd, deellid bod rhai gweithwyr cymdeithasol eisoes yn meddu ar y cymhwyster asesu DoLS cyn yr hyfforddiant diweddar a holwyd a oedd yr unigolion hynny yn cynnal asesiadau. Mewn ymateb, nodwyd bod yr adran yn ceisio sicrhau bod yr adnoddau yn mynd i mewn i ddelio gyda'r asesiadau, yn enwedig i roi blaenoriaeth i'r rhai sy'n achosion brys, ond bod hwn yn parhau i fod yn faes sy'n hynod heriol yng Ngwynedd, fel mwy neu lai bob un awdurdod lleol arall. Bellach 'roedd tua 30 o swyddogion yn medru gwneud yr asesiadau, yn cynnwys y rhai oedd wedi'u hyfforddi ers peth amser. O ystyried y cwestiynu yn y pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu oherwydd y risgiau sy'n codi, cytunodd y pennaeth i ddod â gwybodaeth yn ôl i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd o ran y cynnydd yn y maes yma.
- Gofynnwyd i'r adran rannu gwybodaeth gyda'r pwyllgor ynglŷn â'r Grŵp Trawsffurfio amlddisgyblaethol.
- Croesawyd y gwaith sydd wedi digwydd dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf i geisio cyfarch argymhellion yr arolygiad o'r gwasanaeth. 'Roedd y pwyllgor yn argyhoeddedig bod y gwasanaeth yn symud i'r cyfeiriad cywir, ond yn cydnabod, ar yr un pryd, bod yna lawer o waith i'w wneud eto.

## 5. AWTISTIAETH

Cyflwynwyd - adroddiadau'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, yr Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd a'r Aelod Cabinet Addysg yn manylu ar y gwasanaethau cyfredol ym maes Awtistiaeth a'r cynlluniau i'w datblygu dros y blynyddoedd nesaf.

Gan fod y gwaith yn digwydd ar draws nifer o wasanaethau ac yn cael eu cynllunio a'u cynnal gan 3 o adrannau'r Cyngor, cyflwynwyd adroddiadau ar wahân gan y 3 adran.

Ymhelaethodd yr Aelodau Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiadau, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

(A) <u>Gwasanaethau Anableddau Dysgu</u>

Codwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Mynegwyd pryder nad oedd anghenion oedolion sydd ag awtistiaeth, ond heb anableddau dysgu, yn cael eu cyfarch a bod awtistiaeth yn cael ei drafod o dan y gwasanaethau anabledd dysgu. Nid oedd gan y mwyafrif o bobl sydd ag awtistiaeth anableddau dysgu ac 'roedd symudiad bellach i edrych ar awtistiaeth fel cyflwr yn hytrach nag anabledd. Hefyd, 'roedd gan bawb gyfraniad i'w wneud, ac 'roedd yn bwysig hybu sgiliau pob unigolyn. Yn wyneb y ffaith bod y Bil Awtistiaeth yn mynd drwy Senedd Cymru ar hyn o bryd, byddai'n rhaid i'r Cyngor gymryd anghenion pobl ag awtistiaeth o ddifri' ac mewn ffordd wahanol i'r ffordd y gwnaethpwyd hynny hyd yma. Mewn ymateb, nodwyd bod y Gwasanaeth Anabledd Dysgu yn cymryd yr anghenion hyn o ddifri'. Cadarnhawyd nad oedd awtistiaeth yn wasanaeth ar wahân o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar hyn o bryd ond y credid ei fod wedi ei leoli lle mae'r arbenigedd i ddelio gydag achosion eithaf cymhleth yn bodoli o fewn yr adran ar hyn o bryd a bod y rôl o gydlynu ar draws yr adran a'r cyswllt hefo adrannau eraill yn digwydd yn y fan honno.
- Nodwyd bod yna ddiffyg cefnogaeth ar gyfer pobl sydd â chyflyrau llai dwys a llai hirdymor a phwysleisiwyd pwysigrwydd cefnogi oedolion cyn iddynt fynd yn

ynysig neu i sefyllfa lle mae angen cymorth proffesiynol a meddyginiaeth arnynt. Nodwyd hefyd bod ymyrraeth gynnar yn arbed arian yn y pen draw a chyfeiriwyd yn ogystal at ddiffyg arbenigwyr iechyd meddwl yn y Gwasanaeth Iechyd.

- Mynegwyd y farn y dylai'r Cyngor gyflogi swyddog awtistiaeth fyddai'n bwynt cyswllt i deuluoedd ac yn gallu cydweithio gyda'r trydydd sector. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys gwybodaeth ar y wefan ynglŷn â pha adnoddau, grwpiau sydd ar gael. Mewn ymateb, nodwyd y penodwyd gweithiwr cefnogol drwy'r Prosiect IAS fydd yn gweithio yng Ngwynedd. Hefyd, fel y byddai'r gofynion yn newid a mwy o ddata yn dod trwodd ynglŷn â'r hyn sydd angen i'r Cyngor ei wneud, byddai'r adran yn parhau i ystyried beth yn union sydd angen ei ddarparu. Gallai hynny, yn y pen draw, arwain at yr angen am swyddog cydlynu neu debyg, ond nid oedd y Cyngor wedi cyrraedd y pwynt hynny eto.

(B) Gwasanaeth Plant

Manteisiodd yr Aelod Cabinet ar y cyfle i ddiolch i'r Cynghorwyr Beth Lawton ac Angela Russell am eu cyfraniad i'r cyfarfodydd herio perfformiad ac i'r Cadeirydd am ei ran yn yr adroddiad ar yr archwiliad diweddar o'r gwasanaeth.

Codwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Nodwyd mai un o'r diffygion ar hyn o bryd oedd bod diffyg adnoddau yn golygu nad oedd cysondeb ar draws Gogledd Cymru i ffurf y gwasanaeth Niwroddatblygiadol a sefydlwyd ar gyfer plant ag awtistiaeth ar draws Cymru a bod y rhestrau aros yn hirach. Trosglwyddwyd rhywfaint o adnoddau o'r gwasanaethau ar gyfer plant anabl i'r gwasanaeth newydd oedd yn cael effaith ar Derwen, ac 'roedd unrhyw ymyrraeth yn ddibynnol ar gyllid grant byr dymor. Diffyg arall oedd mai staff gwasanaeth iechyd yn unig oedd wedi eu cyflogi / secondio i'r gwasanaeth Niwroddatblygiadol ac mai ychydig iawn o amser oedd gan Addysg i gyfrannu i'r drefn. Nid oedd gweithiwr cymdeithasol yn rhan o'r gwasanaeth, a olygai nad oedd teuluoedd yn cael asesiad gofalwyr a gwasanaethau cefnogol, ayb, ac 'roedd yna grŵp o blant a phobl ifanc ag awtistiaeth nad oeddent yn cael llawer o wasanaeth oddi allan i'r diagnosis. 'Roedd diffyg hefyd o ran yr adnoddau yn amser seicolegwyr clinigol o fewn y gwasanaethau, gyda'r amser aros yn fwy na blwyddyn mewn rhai rhannau ar draws Gogledd Cymru. Hefyd, 'roedd yna ddiffyg amlwg o ran adnoddau i ddatblygu adnoddau egwyl fer ymhellach gan fod y gwasanaeth eisoes wedi derbyn lleihad yn eu cyllid drwy'r broses Her Gwynedd.
- Nodwyd na allai'r Cyngor fforddio torri mwy o wasanaethau ar gyfer plant a'u teuluoedd oherwydd bod y problemau'n hir dymor a dyma'r garfan fwyaf bregus yn ein cymdeithas.
- Pwysleisiwyd bod swydd y Rheolwr Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn swydd allweddol o fewn y gwasanaeth, ac er sicrhau dilyniant, erfyniwyd am gadw'r swydd ar ôl i Iona Griffiths, y deilydd presennol, ymddeol ddiwedd y mis.
- Llongyfarchwyd a diolchwyd i staff Derwen am eu gwaith gwych.

(C) Gwasanaeth Addysg

Codwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Holwyd a oedd lle i godi ymwybyddiaeth ysgolion o awtistiaeth fel y gellid ymyrryd yn yr ysgolion eu hunain lle mae plant yn isel ar y sbectrwm. Mewn

ymateb, nodwyd bod rhaglen hyfforddiant yn cael ei datblygu ar gyfer yr ysgolion a'i fod yn rhan o'r strategaeth newydd ynglŷn ag anghenion ychwanegol a chynhwysiad.

- Holwyd beth fyddai dyfodol y Ganolfan Awtistiaeth ar safle Ysgol Coed Mawr yn sgil cau'r ysgol honno fel rhan o'r cynllun i foderneiddio addysg yn ardal Bangor. Mewn ymateb, eglurwyd y gobeithid dod o hyd i leoliad arall ar gyfer y ganolfan o fewn adeilad ysgol arall ym Mangor. Gan na ellid cadarnhau'r sefyllfa'n bendant ar y funud, cytunodd yr Aelod Cabinet i godi'r mater a dod â'r ateb yn ôl i aelodau lleol ardal Bangor. Mynegwyd pryder nad oedd yr aelodau'n gwybod am yr uned yng Nghoed Mawr ac felly na fu'n bosib' iddynt ystyried ei phwysigrwydd wrth ystyried y cynllun ar gyfer ysgolion ardal Bangor.
- Canmolwyd y weledigaeth o roi'r plentyn yn ganolog, ond holwyd sut oedd modd cysoni hynny ar draws yr ysgolion fel bod pob plentyn yn cael yr un cyfle. Mynegwyd pryder bod sawl teulu sy'n mynd drwy'r broses yn sôn am brofiad tra gwahanol - rhai'n methu cael mynediad i'r gwasanaeth oherwydd nad oedd yr ysgol yn derbyn bod problem ac eraill ar restr aros a ddim yn cael cefnogaeth oherwydd nad oeddent wedi cael y diagnosis. Mewn ymateb, nodwyd bod dyletswydd ar y cydlynydd a'r pennaeth i adnabod y plant gyda chymorth y seicolegydd addysg a gweithio drwy'r broses honno. Roedd yna broses o raddoli ac o adnabod yn yr uwchradd hefyd yn ogystal â rhaglen hyfforddiant benodol a chynhwysfawr. O ran cysoni a monitro, roedd y gwasanaeth wedi creu rhaglen fonitro fyddai'n ffordd o rannu ymarfer da ac roedd 4 swyddog ansawdd yn gyfrifol am gysoni ansawdd y gwasanaeth mae'r adran a'r ysgolion yn ei roi i'r disgyblion.
- Holwyd sut roedd llwyddiant yn cael ei fesur. Mewn ymateb, nodwyd y defnyddid Estyn o ran monitro'r ysgolion o ran y darpariaethau a bod cynnydd y disgyblion eu hunain yn cael ei fesur yn erbyn y Therapeutic Outcomes Measurement, sy'n edrych ar sgiliau meddal, ac yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Rheoli.
- Holwyd a fyddai modd trefnu hyfforddiant i rieni drwy Skype. Mewn ymateb, nodwyd, er y gellid trefnu hyfforddiant cyffredinol drwy Skype, bod y math o hyfforddiant a ddarperir i rieni yn fwy dwys na hynny fel rheol ac na fyddai'n addas i'w wneud drwy Skype.
- Nodwyd bod y diffyg dilyn i fyny a chefnogaeth i rieni ar ôl y diagnosis yn disgyn ar y seicolegwyr ysgol a'r athrawon arbennig a bod angen gofyn i'r Bwrdd Iechyd lle mae'r gefnogaeth i rieni. O safbwynt y plentyn, nodwyd mai holl sail y strategaeth newydd oedd bod y Gwasanaeth Addysg yn ymyrryd yn gynnar drwy edrych ar anghenion y plentyn, yn hytrach na'r cyflwr, ac yn paratoi cynllun datblygu unigol sy'n cyfarch anghenion y plentyn, ac nid y diagnosis. Mewn ymateb i sylw nad oedd hynny'n digwydd ymhob achos ar lawr gwlad, eglurwyd bod hon yn strategaeth newydd iawn ac arloesol. Roedd yn mynd i gymryd amser i gysoni'r gwasanaeth ar draws y sir gyfan, ond dyna oedd nod y gwasanaeth.
- Gofynnwyd am adroddiad mwy cynhwysfawr i'r pwyllgor yn manylu ar niferoedd y plant sy'n derbyn addysg yn all-sirol, faint o blant sydd ddim yn mynychu ysgol ac sydd ag awtistiaeth / heb awtistiaeth ynghyd â gwybodaeth am yr ysgolion arbennig.
- Holwyd a oedd yna restr aros i weld seicolegydd addysg. Mewn ymateb, nodwyd, er bod rhaid gweld seicolegydd clinigol i gael y diagnosis, nad oedd rhaid gweld seicolegydd addysg i gael y ddarpariaeth o dan y drefn newydd. 'Roedd yr ysgolion yn hoffi'r drefn newydd gan ei bod yn haws iddynt godi materion o ran eu hysgol eu hunain, ond 'roedd rhieni wedi arfer gyda'r hen drefn o gael gweld seicolegydd addysg ac nid oeddent bob amser yn deall bod addysg yn wahanol i iechyd. Nodwyd hefyd bod gan y Cyngor dîm cyflawn ac

eithaf ifanc o seicolegwyr addysg oedd yn gallu cynnal asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod yna gydweithio da yn y maes awtistiaeth rhwng y 3 adran. Roedd camau breision ar droed o ran y cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd hefyd, gyda'r prosiect Alltwen yn gatalydd i hynny gyda llawer o drafod ac edrych ar y problemau o ochr y defnyddiwr.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 1.10 y.h.

**CADEIRYDD**